

â Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Sadwrn 5 Ionawr 2013 yng Nghanolfan Rhyd Ddu

Presennol: Presennol: Rhys (RD) - Cadeirydd ,Anita (AD), Dewi (DH), Richard(RR), Siân (SS),Sioned (SLJ), John (JP) Iolo (IPR),

Ymddiheuriadau: Gareth,Iolo,Eryl, Mark

<p>1.</p>	<p><u>COFNODION</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2012 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eitem 2 – Fforwm Aelodau</u></p> <p>Adroddwyd gan SS na chafodd unrhyw ymholiadau gan aelodau ar ôl ei chyflwyniad ar y fforwm yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae criw o aelodau bellach yn gwneud defnydd o'r fforwm yn arbennig y dringwyr.</p>	
<p>2</p>	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU Y CLWB</u></p> <p>Adroddwyd gan RD bod Eryl bellach wedi ymgymryd â gwaith yr ysgrifennydd gweithgareddau ond yn anffodus nid oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd RD yn awyddus i weld trefn yn cael ei sefydlu lle byddai awgrymiadau yn cael eu bwydo i Eryl ac yntau wedyn yn gweithredu fel cydlynnydd ac yn llunio'r rhaglen. Dylai hyn osgoi sefyllfaoedd lle mae'n rhaid chwilio am awgrymiadau am deithiau munud olaf. Sefydlwyd trefn eisoes ar gyfer teithiau'r de (DH yn trefnu), teithiau dydd Mercher(Haf yn trefnu) a gweithgareddau dringo(Arwel yn trefnu) Yn ddelfrydol dylid cael trefn gyffelyb ar gyfer teithiau'r gogledd. Tybir y bydd ar Eryl angen cymorth hefo trefnu teithiau'r gogledd a gobeithir trafod hyn gydag ef.</p> <p>Yn y drafodaeth ar hyn gan fod y pwyllgor yn teimlo y bydd angen cymorth ar Eryl awgrymwyd y dylid ceisio adnabod pa aelodau fyddai ar gael i arwain teithiau. Roedd teimlad hefyd y dylid hysbysu aelodau all fod yn awyddus i ddechrau arwain teithiau y gellid cael aelodau mwy profiadol i'w cynorthwyo a'u mentora os angen ond iddynt sôn. Dylid hefyd cynnig cyfle i arwain i aelodau iau sy'n dilyn cwrs ML i'w cynorthwyo hefo ennill y cymhwyster.</p> <p>Penderfynwyd y dylid creu holiadur syml i'w anfon i aelodau drwy e-bost i geisio sefydlu proffil profiad aelodaeth y clwb a gofyn a oes aelodau a fyddai'n dymuno cael cymorth i arwain teithiau. Dylid defnyddio'r fforwm a'r safle We i annog aelodau i gwblhau'r holiadur.</p> <p>Nodi y bydd trafodaethau pellach hefo Eryl ynglŷn â llunio'r rhaglen</p> <p>Gofyn i AD a JP sefydlu os oes ar Arwel angen cymorth hefo trefnu gweithgareddau dringo</p>	<p>IPR</p> <p>AD/JP</p>
<p>3</p>	<p><u>AELODAETH Y CLWB</u></p> <p>Adroddodd RD ei fod yn awyddus i weld ehangu aelodaeth y clwb ac yn arbennig i geisio denu aelodau iau. Roedd hyn yn rhywbeth a drafodwyd yn y Cyfarfod Blynyddol ym Meddgelert.</p> <p>Yn y drafodaeth ar hyn gwnaed y sylwadau canlynol:</p> <p>Bod gweithgareddau dringo yn gallu bod yn atyniad i geisio denu pobl ifanc i'r Clwb</p> <p>Na chafwyd diwrnod blasu ers 2009 ac y dylai'r clwb anelu at gael un eto eleni</p>	

	<p>Dylid ceisio targedu myfyrwyr a threfnu rhywbeth pan fyddant gartref ar eu gwyliau</p> <p>Ystyried os yn bosib cael pamffled i'w chynnwys yn rhai o'r papurau bro os nad oes cost ynghlwm</p> <p>Bod angen edrych ar stoc y clwb o bosteri, pamffledi, sticeri ceir ac ati a gweld os oes angen eu diweddarau. Gellid ystyried hefyd cael cardiau bychan hefo manylion am y clwb y gellid eu gadael mewn gwahanol safleoedd</p> <p>Bod angen pwynt cyswllt ar unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer delio ag ymholiadau a chwestiynau gan ddarpar aelodau</p> <p>Mewn unrhyw gyhoeddusrwydd dylid pwysleisio'r canlynol: £15 y flwyddyn yn unig yw cost aelodaeth Gellir cael disgownt hefo cerdyn aelodaeth mewn rhai siopau mynydda</p> <p>Dylai'r clwb ystyried gwneud mwy o ymdrech i farchnata'r teithiau e.e. cael rhywun i siarad am y daith ar raglen <i>Galwad Cynnar</i> ar fore Sadwrn fel y gwneir hefo rhai o deithiau Cymdeithas Edward Llwyd.</p> <p>Ystyried os gellid defnyddio'r cyfryngau newydd fel Facebook a Twitter i geisio rhoi mwy o sylw i weithgareddau'r clwb</p> <p>Penderfynwyd</p> <p>Gofyn i IPR hel at ei gilydd ddeunydd cyhoeddusrwydd presennol y clwb a'i basio ymlaen i SS i weld os oes angen ei ddiweddarau.</p> <p>Dylai safle ymholiadau@clwbmyyddacymru.com fod yn bwynt cyswllt i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd ac y byddai RD yn gyfrifol am basio unrhyw ymholiad i'r person addas.</p> <p>Wrth symud ymlaen hefo hyn dylid edrych yn arbennig ar beth y gellid ei wneud i geisio denu myfyrwyr i ymaelodi â'r clwb</p> <p>Gofyn i RR ymchwilio beth fyddai oblygiadau sefydlu cyfrif i'r clwb ar gyfryngau newydd fel Twitter'</p>	<p>IPR/SS</p> <p>RD</p> <p>RR</p>
<p>4</p>	<p><u>GWEFAN Y CLWB</u></p> <p>Gan nad oedd ysgrifennydd y wefan yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod gohiriwyd trafod yr eitem yma tan gyfarfod nesaf y pwyllgor</p>	
<p>5</p>	<p><u>PWERDY ARFAETHEDIG YN CHWAREL GLYN RHONWY, LLANBERIS</u></p> <p>Adroddwyd y cafwyd erthygl yng nghylchlythyr y CMP yn Rhagfyr ar gais cynllunio a gyflwynwyd gan Quarry Battery Company i Gyngor Gwynedd am ganiatâd cynllunio i adeiladu pwerdy trydan dŵr yn chwarel Glyn Rhonwy yn Llanberis. Roedd yr erthygl gan y CMP yn mynegi pryder y byddai nifer o ddringfeydd yn cael eu colli o ganlyniad i'r datblygiad ac ar yr effaith y byddai yn ei gael ar y tirlun mewn safle mor bwysig. Roedd pryder hefyd ynglŷn ag amseriad yr ymgynghori yn union cyn y Nadolig a bod angen mwy o amser i ystyried cynllun mor uchelgeisiol mewn ardal o bwysigrwydd amgylcheddol.</p> <p>Cafwyd gwybodaeth gan Alun ac Eirwen sy'n byw yn yr ardal am deimladau'r gymuned leol am y cynllun. Nodwyd nad oes perchnogaeth leol o gwbl i'r cynllun ac am yr angen am fwy o ymgynghori.</p> <p>Penderfynwyd y dylid hysbysu Cyngor Gwynedd o bryderon y Clwb am y cynllun a gofyn iddynt ystyried caniatáu mwy o amser i roi ystyriaeth i'w oblygiadau a'i effaith ar yr amgylchedd a'r gymuned leol.</p>	<p>IPR/ RD</p>

<p>6. <u>SWYDD IS-GADEIRYDD</u></p>	<p>Adroddwyd gan IPR na chafwyd unrhyw ymateb i'r cais yn y Cyfarfod Blynyddol am aelod i lenwi swydd yr is-gadeirydd. Adroddodd RD bod yn rhaid cael is-gadeirydd ac y dylai yn ddelfrydol fod yn aelod o'r pwyllgor. Gofynnodd i IPR ysgrifennu at aelodau'r pwyllgor yn gofyn iddynt drafod ymysg ei gilydd ac enwebu un ohonynt i wasanaethu fel is-gadeirydd. Dylid cysylltu ag RD hefo'r enw. Dylai hyn ddigwydd erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor</p> <p>Penderfynwyd gweithredu ar y llinellau uchod.</p>	<p>IPR</p>
<p>7 <u>RHAGLEN HYFFORDDIANT</u></p>	<p>Adroddwyd fod Maldwyn Roberts yn casglu enwau ar gyfer rhedeg cwrs ML drwy gyfrwng y Gymraeg. Cytunwyd y dylid anelu at gael 12 ar y cwrs.</p> <p>Ystyriwyd os oes angen cyrsiau cymorth cyntaf pellach a chysiau ymarfer darllen mapiau/ defnyddio rhaffau. Fel y nodwyd dylid anelu at gael diwrnod blasu eto eleni</p> <p>Penderfynwyd y dylid cael cwestiwn yn yr holiadur a drafodwyd eisoes yn holi aelodau os oes ganddynt ddi-ddordeb mewn cyrsiau fel rhai cymorth 1af gan bwysleisio ei bod yn bosib eu mynychu am ddim neu am ffioedd gostyngedig</p> <p>Adroddwyd gan IPR y cafwyd ymholiad am gronfa oedd gan y clwb yn y gorffennol i gynorthwyo aelodau gyda'r gost o fynd ar gyrsiau. Roedd yn ansicr beth oedd sefyllfa'r gronfa yma bellach.</p> <p>Penderfynwyd gofyn i IPR holi'r cyn drysorydd i geisio sefydlu beth oedd sefyllfa'r gronfa dan sylw.</p>	<p>IPR</p> <p>IPR</p>
<p>8 <u>OFFER</u></p>	<p>RD yn adrodd y byddai Arwel yn parhau yn gyfrifol am offer yn y gogledd a Guto am offer yn y de. Adroddodd AD fod cyflwr rhai o'r rhaffau yn y gogledd wedi dirywio ac o bosib y byddai angen cael rhai newydd yn eu lle.</p> <p>Penderfynwyd gofyn i AD drafod cyflwr y rhaffau gyda Arwel ac archebu rhai newydd os oes angen.</p>	<p>AD</p>
<p>9 <u>UNRHYW FATER ARALL</u></p>	<p>Eisteddfod Genedlaethol 2013 Adroddodd SS ei bod yn dal i ddisgwyl cael cadarnhad gan drefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol ynglŷn â pha bryd y bydd darlith y Clwb Mynydda yn cael ei chynnal yn yr Eisteddfod yn Ninbych eleni.</p> <p>Cotswolds Adroddodd DH ei fod wedi darganfod nad oedd y côd ar gyfer hawlio disgownt wrth brynu nwyddau o Siop Cotswolds yn gweithio ar eu gwasanaeth ar y we a bod angen eu ffonio wedyn i allu hawlio'r disgownt</p> <p>Penderfynwyd gofyn i IPR gysylltu â Cotswolds i'w hysbysu o hyn a gofyn iddynt ddatrys y mater</p> <p>Prosiect Trawsffiniol Gweithgareddau Awyr Agored Adroddodd IPR fod Ifan Llewelyn Jones, Swyddog Datblygu Iaith Cyngor Gwynedd wedi cysylltu ag ef ar ran y prosiect uchod sy'n cael ei redeg gan Fenter Iaith Conwy. Amcan y prosiect yw hyfforddi siaradwyr Cymraeg yn y sector awyr agored fel eu bod yn derbyn cymhwyster, ac o ganlyniad yn llwyddo i gael bywiolaeth yn eu cynefin yng</p>	<p>IPR</p>

	<p>nghefn gwlad y gogledd. Fodd bynnag roedd y niferoedd o siroedd Dinbych, Flint a Wrecsam yn manteisio ar y prosiect yn isel ac roedd yn holi os y byddai'r clwb yn gallu helpu i godi ymwybyddiaeth am y prosiect yn yr ardaloedd hynny.</p> <p>Penderfynwyd gan fod amcanion y prosiect yn rhywbeth y byddai'r clwb yn ei gefnogi y dylid, os yn ymarferol, gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth yr aelodau yn y siroedd dan sylw am fodolaeth y prosiect.</p>	IPR
10	<p><u>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</u></p> <p>Adroddwyd nad oedd unrhyw beth penodol i'w adrodd.</p>	
11	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Adroddwyd nad oedd unrhyw beth penodol i'w adrodd.</p>	
12	<p><u>RHAGLEN GWEITHGAREDDAU NESAF Y CLWB.</u></p> <p>Adroddwyd bod y drefn o baratoi y rhaglen eisoes wedi ei drafod</p> <p>Gofynnodd RD i JP, gan ei fod wedi bod yn cerdded yn yr ardal, os y byddai'n ymarferol cael taith i'r clwb yn ardal y Pyrenees yn cerdded y GR10 a'r GR11 falle yn haf 2014.</p> <p>Gofynnwyd i RR fod yn gyfrifol am drefnu taith i aelodau'r clwb yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych eleni, ar y dydd lau os yn bosib</p>	JP RR
13	<p><u>CYFARFODYDD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Adroddodd RD ei fod yn awyddus i drafod gwefan y clwb yn y cyfarfod nesaf a'i bod yn bwysig bod ysgrifennydd y wefan yn gallu bod yn bresennol</p> <p>Penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod mis Mai'r clwb yn ardal Dolgellau ac y dylid ceisio sicrhau bod yna gysylltiadau i'r we ar gael yn yr ystafell dan sylw fel y gellid gweld y safle we ar yr un pryd.</p> <p>Bydd cyfarfod mis Medi'r pwyllgor yn ystod penwythnos preswyl y clwb yn y de</p>	IPR